Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
112/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
06/12/2023

# Trosolwg o'r themâu allweddol yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-215-7

Trosolwg o'r themâu allweddol yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027

Awdur: Ymchwil Arad

Adroddiad Ymchwil Llawn: Lane, J. & Lewis, S., (2023) *Trosolwg o'r themâu allweddol yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 112/2023. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-themau-allweddol-yn-asesiadau-digonolrwydd-gofal-plant-2022-i-2027

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Enw: Dr Jack Watkins

Is-adran: Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: +44 300 025 1719

E-bost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Geirfa 2

1. Cyflwyniad/Cefndir ........................................................................................3

2. Cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer gofal plant ......................................................6

3. Datblygu'r gweithlu ..........................................................................................12

4. Rhwystrau i fynediad at ofal plant ..........................................................................17

5. Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)......................................................................24

6. Darpariaeth Gymraeg............................................................................................28

7. Dyfodol gofal plant...............................................................................................32

8. Crynodeb a synthesis............................................................................................38

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae'n cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er mwyn sicrhau llesiant pobl Cymru. |
| CSCA | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| CWLWM | Childcare Wales Learning & Working Mutually / Gofal Plant Cymru'n Dysgu a Gweithio ar y Cyd: Consortiwm o bum partner gofal plant a chwarae, sy'n darparu gwasanaeth integredig dwyieithog a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru. |
| Cynnig Gofal Plant | Hyd at 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni/gofalwyr cymwys sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. |
| Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth | Mae'n  ofynnol o dan y gyfraith i bob gwarchodwr plant a darparwr gofal plant a chwarae cofrestredig gwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth mewn perthynas â monitro a chydymffurfio â gwasanaethau o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Caiff y datganiad ei gwblhau ar-lein. |
| Dechrau'n Deg | Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i blant (dan pedair oed) a'u teuluoedd. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn cynnwys 12.5 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu, am 39 wythnos, i gefnogi datblygiad plant dwy i dair oed sy'n gymwys i gael cymorth. Mae'r rhaglen hon yn cael ei hehangu ledled Cymru ar hyn o bryd. |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Mae gan bob awdurdod lleol Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n gallu rhoi cyngor ar: ofal plant; cymorth gyda phlant a theuluoedd; a chymorth ar faterion yn ymwneud â theuluoedd. |
| NDNA | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd. |
| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn amlinellu'r gofynion ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed. Maent yn cefnogi darparwyr i fodloni'r gofynion rheoliadol sy'n gysylltiedig â'u darpariaeth. |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn rhan o ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a oes digon o gyfleoedd gofal plant ar gael yn yr ardal. Ym mis Medi 2022, cyflwynodd awdurdodau lleol eu hasesiadau diweddaraf i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r themâu a'r materion a gododd ar draws pob un o'r 22 Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

**Cefndir**

1.2 O dan Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 (y Rheoliadau) mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu'r galw am ofal plant ac argaeledd gofal plant yn eu hardal bob pum mlynedd.[1] Gelwir hwn yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ac fe'i pasiwyd o dan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006. Mae'r Ddeddf yn egluro'r rhan hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod darpariaeth gofal plant digonol ar gael i fodloni gofynion rhieni/gofalwyr yn eu hardal er mwyn eu galluogi i ddechrau gweithio neu aros mewn gwaith; neu ymgymryd â chyrsiau addysg neu hyfforddiant y gellid yn rhesymol disgwyl iddynt eu cynorthwyo i gael gwaith.

1.3 Mae'r Ddeddf yn nodi darpariaeth gofal plant ddigonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n diwallu anghenion rhieni neu ofalwyr, ac y dylai'r gwasanaethau hyn ddarparu gwybodaeth briodol am ofal plant i'r rhai sy'n brif ofalwyr. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw cydlynu ymdrechion ar draws pob sector, y Ganolfan Byd Gwaith, ysgolion bro, canolfannau integredig a gwasanaethau iechyd lleol i sicrhau bod gwasanaethau cynaliadwy yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion gofal plant teuluoedd.

1.4 Nod yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yw asesu'r opsiynau gofal plant sydd ar gael ar hyn o bryd, nodi'r bylchau a nodi meysydd y mae angen eu datblygu i sicrhau cyfleoedd gofal plant digonol. Mae Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol drwy asesu'r cyflenwad

[1] Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesu Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk)

(darpariaeth gofal plant) a’r galw am ddarpariaeth gofal plant (anghenion rhieni/gofalwyr yn y dyfodol) yn eu hardal leol fel y gellir mynd i’r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.

1.5 Wrth gyflawni eu dyletswydd i sicrhau gofal plant digonol, rhaid i awdurdodau lleol ystyried Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016) Llywodraeth Cymru (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y canllawiau statudol) sy’n amlinellu’r fframwaith deddfwriaethol sy’n sail i’r ddyletswydd ar awdurdodau lleol, a’r gofyniad i sicrhau bod gofal plant digonol ar gael yn eu hardal, ac asesu'r gofal hwnnw.[2] Yng ngoleuni’r pandemig Covid-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau atodol i awdurdodau lleol mewn perthynas â’r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ar gyfer 2022. Roedd y canllawiau atodol hyn yn cynnwys gofynion ychwanegol ar gyfer yr asesiadau yn 2022 a oedd yn ymwneud â COVID-19, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), casglu ac adrodd ar ddata a'r Cynllun Nanis.[3]

**Nodau ac amcanion yr ymchwil**

1.6 Roedd nodau ac amcanion yr ymchwil fel a ganlyn:

1. Adolygu'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022 a gwblhawyd gan bob un o’r 22 awdurdod lleol a’r data a fu’n sail iddynt.
2. Rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ar sut y mae pob awdurdod lleol unigol wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â phroses Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022, gan gynnwys cyfeiriad penodol at y mater a nodwyd yng nghanllawiau atodol 2022.
3. Darparu crynodeb o’r prif themâu, y bylchau a'r rhwystrau sy’n dod i’r amlwg o’r 22 adroddiad Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ar gyfer 2022, gan amlygu unrhyw themâu sy'n berthnasol i Gymru gyfan, themâu rhanbarthol ac unrhyw faterion lleol.

1.7 Cyflawnwyd amcanion 1 a 2 a darparwyd adborth i Awdurdodau Lleol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau amcan 3 uchod.

[2] Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)
[3] Asesiad o ddigonolrwydd gofal plant 2022: canllawiau ategol i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

**Methodoleg**

1.8 Roedd rhan gyntaf yr ymchwil yn ymwneud ag adolygu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022 pob awdurdod lleol i nodi sut yr oedd pob awdurdod lleol yn bodloni ei ddyletswyddau statudol. Roedd y dasg hon hefyd yn gyfle i nodi unrhyw fylchau a themâu allweddol ar draws y 22 awdurdod lleol.

1.9 Adolygwyd Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant pob un o'r 22 awdurdod lleol i nodi rhai o'r themâu cyffredin a gyflwynwyd yn y dogfennau hynny, gan roi syniad o'r problemau cyffredin a oedd yn bodoli ledled Cymru mewn perthynas â'r galw am ofal plant a'r cyflenwad.

1.10 Mae’r canllawiau statudol yn nodi’r meysydd hynny y mae’n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried yn eu hasesiadau. I ddechrau, defnyddiwyd y penawdau yn y canllawiau statudol i greu'r fframwaith ar gyfer y dadansoddiad – e.e., datblygu’r gweithlu, rhwystrau o ran cael mynediad at ofal plant, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), darpariaeth Gymraeg a chynaliadwyedd. Cafodd yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant eu hadolygu a'u codio yn seiliedig ar y pynciau hyn a oedd eisoes wedi'u diffinio. Lle y bo'n berthnasol, cafodd codau eu grwpio gyda'i gilydd a'u cofnodi fel themâu. Er bod y dull hwn yn anelu at nodi rhai o'r themâu mwyaf cyffredin ar draws yr asesiadau, nid oedd wedi'i fwriadu i fod yn gwbl gynhwysfawr.

1.11 Yn ystod yr adolygiad o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, ystyriodd y tîm ymchwil hefyd a oedd unrhyw batrymau daearyddol i'w gweld ymhlith y themâu a oedd yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y themâu a nodwyd yn yr adolygiad hwn yn gyson ar draws asesiadau'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac ni welwyd unrhyw dueddiadau daearyddol amlwg.

1.12 Mae’r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o’r prif themâu a nodwyd o’r adolygiad o bob un o’r 22 Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, gan gyfeirio at unrhyw batrymau daearyddol lle y'u nodwyd.

## 2. Cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer gofal plant

2.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r themâu cyffredin a nodwyd ar draws Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau sy'n darparu cymorth ariannol i deuluoedd tuag at gost gofal plant yng Nghymru. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer gofal plant fel Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant i gefnogi teuluoedd i gael mynediad at ofal plant fforddiadwy. Mae mentrau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi hefyd wedi ehangu, megis Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth neu gyfer talebau gofal plant. Mae hyn wedi golygu bod y galw gan rieni/gofalwyr sy'n gallu cael mynediad at y cynlluniau hyn wedi cynnydd, cynnydd nad yw darparwyr, mewn rhai achosion, wedi gallu ei fodloni.

2.2 Noda'r canllawiau statudol bod yn rhaid i asesiadau awdurdodau lleol ystyried nifer y lleoedd gofal plant a ariennir ar gyfer plant dwy oed a'r ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar ran-amser sydd ar gael ac sy'n ofynnol iddynt ei darparu.[4]

2.3 Casglwyd gwybodaeth yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ar gynlluniau sy'n rhoi cymorth ariannol i rieni/gofalwyr tuag at gost gofal plant gan ddarparwyr gofal plant, rhieni/gofalwyr, a rhanddeiliaid, sef partneriaid CWLWM.

2.4 Mae'r adrannau a ganlyn yn trafod rhai o'r themâu cyffredin ar draws yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant mewn perthynas â chynlluniau gofal plant unigol.

### Cynnig Gofal Plant

2.5 Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni/gofalwyr sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed, am 48 wythnos y flwyddyn. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i rieni/gofalwyr ennill o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i weithio 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a llai na £100,000 y flwyddyn, neu fod wedi cofrestru ar gwrs israddedig, ôl-raddedig neu addysg bellach sy'n 10 wythnos o hyd o leiaf.

2.6 O ran darparwyr sy'n darparu'r Cynnig, roedd yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn cynnwys adborth gan ddarparwyr a ddywedodd fod y cyfraddau cyllido ar gyfer y Cynnig yn rhy isel, gan ei gwneud yn anodd i leoliadau dalu costau darparu'r

[4] Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)

gofal hwn, yn enwedig yn sgil y cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.[5] Pan gyflwynwyd y Cynnig am y tro cyntaf yn 2017, pennwyd y gyfradd fesul awr ar gyfer darparwyr ar £4.50 yr awr a chafodd ei chynyddu i £5 yr awr yn 2022.

2.7 Thema arall a nodwyd yn rhai o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant oedd effaith y Cynnig ar oriau gweithredu darparwyr. Er enghraifft, adroddodd awdurdodau lleol, o ganlyniad i gyflwyno'r Cynnig, fod rhai lleoliadau gofal dydd sesiynol wedi cynyddu eu horiau agor ac wedi newid eu cofrestriad i fod yn lleoliadau gofal dydd llawn. Dywedodd awdurdodau lleol yn eu hasesiadau mai cymhelliad lleoliadau dros newid eu horiau agor/cofrestriad oedd er mwyn eu galluogi i gynnig darpariaeth well i deuluoedd a oedd yn dymuno defnyddio uchafswm yr oriau Cynnig Gofal Plant y mae ganddynt hawl iddynt yn eu lleoliad.

2.8 Fel rhan o'u hasesiadau, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anghenion y rhai sy'n defnyddio gofal plant y tu allan i'w hardal a'r rhai o ardaloedd eraill sy'n defnyddio gofal plant yn ardal eu hawdurdod lleol. Er mwyn gwneud hyn, mae'r canllawiau statudol yn nodi y dylai awdurdodau lleol ystyried ymgynghori ag awdurdodau cyfagos. [6] O ganlyniad, nododd llawer o'r asesiadau fod yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi amlinellu trefniadau gweithio mewn partneriaeth eraill, megis rhannu arferion da o ran ceisiadau Grant Cyfalaf ADY a'r Cynnig Gofal Plant, roedd yn ymddangos bod model gweithio mewn partneriaeth awdurdodau lleol o ddarparu'r Cynnig Gofal Plant yn elfen allweddol o alluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â gwaith trawsffiniol o fewn eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant. [7]

### Dechrau'n Deg

2.9 Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru sydd wedi'i thargedu at deuluoedd â phlant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yw Dechrau'n Deg. Nod Dechrau'n Deg yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant drwy liniaru effaith tlodi, sy'n

---

[5] Nododd gwerthusiadau o'r Cynnig Gofal Plant ganfyddiadau tebyg hefyd: [Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru | LLYW.CYMRU]
[6] [Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)]
[7] Roedd model darparu'r Cynnig Gofal Plant, a gyflwynwyd yn 2018, yn cynnwys clystyrau awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth mewn dau gategori: awdurdodau cyflawni, sy'n gyfrifol am brosesu ceisiadau rhieni a thaliadau i ddarparwyr; ac awdurdodau ymgysylltu, sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni cymwys yn eu hawdurdodau lleol.

gysylltiedig â chanlyniadau bywyd gwael yn ystod plentyndod cynnar, gan gynnwys canlyniadau iechyd. Mae'r Rhaglen yn cynnwys pedair elfen:

- gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel wedi'i ariannu ar gyfer plant 2-3 oed;
- gwell cefnogaeth gan ymwelwyr iechyd;
- mynediad at gymorth rhianta;
- cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu.

2.10 Mae'n bwysig nodi bod y wybodaeth a gasglwyd fel sail i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant wedi'i chasglu yn 2021-2022, cyn i'r rhaglen Dechrau'n Deg gael ei ehangu.[8] Dechreuodd y gwaith o ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i bob plentyn 2 oed ym mis Medi 2022. Cwblhawyd Cam 1 y broses ehangu a oedd yn cynnwys pedair elfen Dechrau'n Deg ym mis Mehefin 2023. Mae Cam 2 yn canolbwyntio ar ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2023 ac sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, gyda chynlluniau i fuddsoddi £11.65 miliwn yn 2023/24 ac £14.3 miliwn arall yn 2024/25.[9]

2.11 Dywedodd rhai awdurdodau lleol yn eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant nad oedd Dechrau'n Deg ar gael i ddigon o deuluoedd. Codwyd hyn fel pryder gan rieni/gofalwyr hefyd, a disgrifiodd rhai ohonynt y sefyllfa fel "loteri cod post" o ran p'un a yw teuluoedd yn cael mynediad at y gofal plant a ariennir.

> "Dim ond rhai codau post y mae awdurdodau lleol yn caniatáu iddynt dderbyn cymorth Dechrau'N Deg. Gallai hyn fod wedi bod yn help mawr i mi ond yn lle hynny roedd yn rhaid i mi dalu pan oeddwn yn gweithio ac yn rhiant sengl ond dyw'r fenyw ar draws yr hewl ddim yn gweithio ac mae hi'n cael Dechrau'n Deg am ddim! Fe wnes i roi'r gorau i weithio a dechrau yn y coleg oherwydd ei fod yn rhy ddrud a doedd e ddim yn werth gweithio." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

2.12 Fodd bynnag, mae'n werth nodi, ers cyhoeddi Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022, yr adroddwyd bod mwy o blant wedi cael mynediad at Dechrau'n Deg

---

[8] Ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg yng Nghymru | LLYW.CYMRU
[9] Ehangu'r Ddarpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn raddol | LLYW.CYMRU

oherwydd iddo gael ei ehangu a chyrhaeddwyd 3,178 o blant ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2022 drwy'r cam cyntaf.[10]

2.13 Mae ehangu'r cynllun Dechrau'n Deg yn golygu y bydd angen i ddarparwyr gofal plant addasu i ddarparu ar gyfer y galw ychwanegol am ddarpariaeth o'r fath. Nodwyd mewn rhai Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant bod hwn yn fwlch y mae angen ei lenwi er mwyn sicrhau bod pob rhiant/gofalwr cymwys yn gallu manteisio ar y cymorth hwn.

2.14 Roedd adborth o'r arolygon o rieni/gofalwyr (n=8,620) ar draws rhai awdurdodau lleol hefyd yn awgrymu bod hyd yn oed rhieni/gofalwyr sy'n gallu cael mynediad at Dechrau'n Deg yn teimlo nad yw'n cynnig digon o oriau, yn enwedig er mwyn eu galluogi i weithio.

**Talebau gofal plant/Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth (CTHEF)**

2.15 Mae'r cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth yn helpu rhieni/gofalwyr gyda chost gofal plant ac i lawer, gan gynnwys ymgeiswyr newydd, mae wedi disodli'r cynllun talebau gofal plant.[11] Mae Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth, a lansiwyd ym mis Ebrill 2017, yn rhoi 20% yn ychwanegol tuag at gostau gofal plant i deuluoedd cymwys. Yn debyg i'r cymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant estynedig, mae'n rhaid i'r ddau riant/gofalwr fod yn gweithio er mwyn bod yn gymwys, ond mae amrywiadau bach o ran cymhwystra rhwng y ddau gynllun – ar gyfer y cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth gall rhiant/gofalwr weithio llai nag 16 awr yr wythnos ar yr amod bod eu hincwm wythnosol yn fwy na'r isafswm o £120 yr wythnos. Mae angen i rieni/gofalwyr hefyd ennill llai na £100,000 y flwyddyn er mwyn gallu cael mynediad at y cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth[12]

2.16 Tynnodd rhai Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant sylw at faterion yn ymwneud â Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth a thalebau gofal plant, gan nad oedd rhai darparwyr yn eu derbyn. Nododd awdurdodau lleol felly fod angen gwneud gwaith i annog mwy i ymrwymo i'r cynlluniau hyn.

2.17 Mynegwyd pryder hefyd mewn rhai asesiadau nad oedd rhai rhieni/gofalwyr yn ymwybodol eu bod yn gallu cael mynediad at y cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o

[10] Datganiad Ysgrifenedig: Cwblhau Cam Cyntaf Ehangu Dechrau'n Deg (13 Mehefin 2023) | LLYW.CYMRU
[11] Gan fod talebau gofal plant wedi cael eu disodli gan y cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth, nid yw talebau gofal plant ar gael bellach ar gyfer cofrestriadau newydd.
[12] Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth - GOV.UK (www.gov.uk)

Dreth ac felly mae angen gwneud mwy o waith i gyfathrebu hyn yn effeithiol i rieni/gofalwyr, yn ogystal â hysbysebu'r holl fathau o gymorth gofal plant sydd ar gael yn gyffredinol. O ganlyniad, nodwyd y dylai awdurdodau lleol barhau i weithio mewn partneriaeth â rhaglenni cyflogadwyedd lleol a gweithwyr proffesiynol er mwyn cynghori ar hyrwyddo mentrau gofal plant a ariennir a rhaglenni megis gofal plant sy'n rhydd o dreth.

**Themâu cyffredinol**

2.18 Cododd sawl thema gyffredin yn y sylwadau am y gwahanol gynlluniau cymorth ariannol ar gyfer gofal plant. Nododd rhai Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant y gall fod diffyg gwybodaeth gan rieni/gofalwyr yn gyffredinol am y cynlluniau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, nid oedd rhai o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg yn ymwybodol eu bod yn gallu cael mynediad at y cynllun Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant, talebau gofal plant neu'r cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth. Un awgrym a gododd yn aml yng nghynlluniau gweithredu awdurdodau lleol oedd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu i rieni/gofalwyr am y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, a mentrau newydd arfaethedig, er enghraifft ehangu'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg.

2.19 Mae ehangu cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer gofal plant wedi arwain at gynnydd yn y galw am ofal plant ar gyfer grwpiau o blant o oedran penodol. Nododd llawer o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant gynnydd yn y galw am ofal plant ar gyfer plant 2, 3 a 4 oed yn eu hardal o ganlyniad i'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg – ac yn benodol cynnydd yn y galw am ofal rhan-amser ar gyfer y grwpiau oedran hyn. Nododd rhai asesiadau y gallai fod bwlch yn y cyflenwad wrth i'r cynlluniau hyn ehangu ymhellach, a bod angen gwneud gwaith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gallu parhau i fodloni'r galw.

2.20 Nododd rhai asesiadau fod darparwyr wedi codi pryderon nad oedd y cyllid wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, gan ei gwneud yn anodd weithiau i gynnig y cynlluniau a ariennir. Er enghraifft, gall y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr drwy'r Cynnig Gofal Plant fod yn is na'r gyfradd fesul awr y mae gwarchodwr plant neu leoliadau eraill yn ei chodi.

2.21 Pryder arall a nodwyd oedd effaith y Cynnig Gofal Plant ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Nododd un asesiad bryder y gallai darparwyr fod yn dyrannu mwy o leoedd i blant sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, gan leihau'r capasiti i ddarparu ar

gyfer plant Dechrau’n Deg. Ni roddodd yr asesiad hwn esboniad o pam y gallai hyn fod yn digwydd. Nododd canfyddiadau gwerthusiad y Cynnig Gofal Plant (blwyddyn 4) bryderon tebyg a godwyd gan randdeiliaid, a esboniodd fod cost darparu Dechrau’n Deg fesul plentyn yn uwch na chost y Cynnig Gofal Plant, a allai olygu bod rhai darparwyr yn ffafrio’r Cynnig Gofal Plant yn hytrach na Dechrau'n Deg.[13]

[13] Gwerthusiad o Flwyddyn 4 y Cynnig Gofal Plant

# 3. Datblygu'r gweithlu

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r themâu cyffredin a nodwyd ar draws Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol mewn perthynas â datblygu a hyfforddi'r gweithlu. Mae'r canllawiau statudol yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynnal "asesiad o gymwysterau'r gweithlu gofal plant presennol a'u hanghenion hyfforddi ar hyn o bryd ar draws y mathau o ofal plant" ac y "dylid ystyried y gofynion hyfforddi yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, ac yn fwy cyffredinol."[14] Mae dau ddiben i hyn: 1) bod yn sail i raglen datblygu a hyfforddi'r gweithlu awdurdodau lleol 2) gwella ansawdd y ddarpariaeth gofal plant.

3.2 Deilliodd y wybodaeth yn ymwneud â datblygu a hyfforddi'r gweithlu gofal plant yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant o ddata a gasglwyd drwy'r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, arolygon o ddarparwyr, a gwybodaeth a gasglwyd gan swyddogion awdurdodau lleol yn ystod ymweliadau â lleoliadau (e.e., Swyddog Gwella Ansawdd, Swyddog Digonolrwydd Chwarae, Cydlynydd Dechrau'n Deg).

### Recriwtio a chadw staff

3.3 Thema allweddol a nodwyd ar draws y rhan fwyaf o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant oedd anawsterau recriwtio a chadw staff. Yn eu hasesiadau, nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, er bod recriwtio a chadw staff wedi bod yn her barhaus i'r sector, bod COVID-19 wedi gwaethygu hyn. Cododd rhai awdurdodau lleol bryderon penodol yn sgil ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg gan y bydd yn golygu mwy o alw am ofal plant ac felly y byddai angen cynyddu'r cyflenwad. Fodd bynnag, mae'r problemau presennol y mae'r sector yn eu hwynebu sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff yn rhwystr i fodloni'r galw cynyddol hwn.

3.4 Priodolwyd y ffaith bod lleoliadau a oedd yn cael anawsterau wrth recriwtio staff cymwys, addas i nifer o ffactorau. Un ffactor a nodwyd mewn rhai asesiadau oedd y niferoedd bach o fyfyrwyr a oedd yn astudio cyrsiau gofal plant, a hynny oherwydd bod llai o gyrsiau ar gael neu bod llai o fyfyrwyr yn penderfynu dilyn cwrs gofal plant. Mae hyn yn ei dro yn arwain at lai o ymarferwyr cymwys yn ymuno â'r sector,

[14] Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)

gan leihau'r gronfa o ymgeiswyr â chymwysterau addas i gyflogwyr gofal plant eu recriwtio sy'n ei gwneud yn anos llenwi swyddi gwag.

> "Mae'r nifer sy'n astudio cyrsiau Gofal Plant yn y coleg wedi lleihau'n sylweddol. Nid yw ysgolion uwchradd yr ardal bellach yn cynnig y cwrs." Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

3.5 At hynny, nododd llawer o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant fod y cyfyngiadau yn sgil COVID-19 yn golygu bod unrhyw weithgareddau wyneb yn wyneb yr ymgymerwyd â nhw gan awdurdodau lleol i hyrwyddo gyrfaoedd yn y sector gofal plant wedi dod i ben dros dro, a gallai hyn fod wedi cael effaith negyddol ar y nifer sy'n dilyn cyrsiau gofal plant.

3.6 Nododd asesiadau'r awdurdodau lleol anawsterau penodol wrth recriwtio staff cymwys sy'n medru'r Gymraeg, a allai gyfyngu ar ehangu gofal plant cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r strategaeth Cymraeg 2050 – strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – a CSCA awdurdodau lleol. Trafodir y themâu a nodwyd mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

> "Fel meithrinfa Gymraeg, mae angen siaradwyr Cymraeg rhugl arnom ni hefyd. Felly, mae argaeledd gweithwyr cymwysedig Cymraeg eu hiaith yn fwy o broblem." Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

3.7 Dywedodd rhai awdurdodau lleol mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru y gall recriwtio staff cymwys fod yn heriol ac awgrymwyd y gallai recriwtio rhagor o warchodwyr plant fod yn gam gweithredu allweddol i fynd i'r afael â heriau a bylchau yn y ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â lleoliadau gwledig.

3.8 O ran cadw staff, amlinellodd llawer o awdurdodau lleol resymau pam yr oedd staff yn gadael lleoliadau gofal plant, fel yr adroddwyd gan y lleoliadau. Roedd y rhesymau'n cynnwys cyflog isel, y pwysau a'r disgwyliadau a'r awydd am gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) pellach. Gwaethygodd COVID-19 y problemau'n ymwneud â chadw staff.

> "Dyw cytundebau byr a nifer bach o oriau ddim yn denu staff o safon i'r swydd yn ogystal â'r ffaith bod y cyflog yn isel iawn o gymharu â gwaith arall yn yr ardal ble

mae angen llai o gymwysterau a lle mae llai o gyfrifoldeb.” Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

“Roedd un o fy staff yn Arweinydd Tîm, ond oherwydd COVID-19 roedd hyn yn ormod o straen a gadawodd i fynd i leoliad gofal plant arall ond fel cynorthwyydd nyrsio yn hytrach nag Arweinydd Tîm.” Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

“Roedd gen i aelod o staff i ffwrdd o'r gwaith oherwydd COVID-19 oherwydd roedd hi’n bryderus iawn. Dydy hi ddim yn gweithio nawr.” Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

“Aeth y person a adawodd i [weithio i'r gwasanaeth] Tracio ac Olrhain… fe wnaethom secondio dau aelod o staff yno pan oedd gennym lai o alw, ac roedd yn cyd-fynd yn well â’u bywyd cartref a’u hanghenion gofal plant.” Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

3.9 Lle yr oedd hynny'n hysbys, roedd cyrchfan y rhai a oedd yn gadael lleoliadau gofal plant yn cael ei hadrodd mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant. Roedd cyrchfannau'n cynnwys ysgolion/sector addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (e.e. GIG/nyrsio), manwerthu (e.e., archfarchnadoedd) a'r sector lletygarwch.

“Aeth dau ‘ymadawr’ i weithio mewn archfarchnadoedd ac aeth un i weithio mewn ysgol ADY.” Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

“Cafodd rhai eu ‘potsio’ gan feithrinfeydd cyfagos, y diwydiant manwerthu a chan ysgolion cynradd lleol.” Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

**Darparu hyfforddiant**

3.10 Amlinellodd yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant sut y mae awdurdodau lleol yn trefnu rhaglenni hyfforddi ar gyfer eu darparwyr gofal plant. Fel rhan o'r rhaglenni hyfforddi hyn, roedd cyrsiau'n cael eu darparu'n fewnol neu'n cael eu comisiynu i ddarparwr hyfforddiant allanol. Roedd y cyrsiau hyfforddi hyn yn tueddu i gynnwys hyfforddiant gorfodol – Cymorth Cyntaf Pediatrig, Diogelu a Hylendid Bwyd – yn ogystal â hyfforddiant arall a argymhellir – e.e. ADY, Rheoli Ymddygiad, Codi a

Chario, Iechyd a Diogelwch ac Asesu Risg a Diogelwch Tân, Atal a Rheoli Heintiau a Chwarae yn yr Awyr Agored.

3.11 Thema allweddol a nodwyd ar draws yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant oedd effaith COVID-19 ar fynediad i hyfforddiant a darpariaeth hyfforddiant. Mewn llawer o achosion, daeth rhaglenni hyfforddi awdurdodau lleol i ben dros dro neu cawsant eu lleihau yn ystod y pandemig. Tra bod cyfyngiadau COVID-19 yn parhau, nid oedd modd cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb. O ganlyniad, addaswyd rhywfaint o hyfforddiant rheoledig i'w ddarparu ar-lein.

3.12 Cymorth Cyntaf Pediatrig oedd yr hyfforddiant gorfodol yr effeithiwyd arno fwyaf gan COVID-19. Er bod hyfforddiant arall a ddarparwyd wyneb yn wyneb cyn y pandemig wedi'i addasu i'w ddarparu ar-lein oherwydd y cyfyngiadau'n ymwneud â COVID-19, nododd llawer o awdurdodau lleol yn eu hasesiadau nad oedd darparu hyfforddiant ar-lein yn ymarferol fel yr unig ddull o ddarparu hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig. O'r herwydd, hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig oedd yr hyfforddiant y cafodd COVID-19 yr effaith negyddol fwyaf arno gan fod y cyfyngiadau wedi golygu y bu'n rhaid ei atal am sawl mis. O ganlyniad i hynny, nododd awdurdodau lleol gynnydd yn y cyrsiau Cymorth Cyntaf yr oedd eu hangen yn dilyn y pandemig.

3.13 Eglurodd llawer o awdurdodau lleol yn eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant fod y cyfyngiadau yn sgil COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar fynediad at hyfforddiant. Roedd diffyg mynediad at TG a phrinder staff wrth gefn yn rhai o'r rhesymau a roddwyd ynghylch yr hyn a oedd yn atal ymarferwyr rhag manteisio ar gyfleoedd hyfforddi ar-lein neu gyfunol. Ymhellach, roedd cau lleoliadau yn golygu nad oedd myfyrwyr yn gallu ymgymryd ag elfennau cymhwysedd/tystiolaeth eu cymhwyster ac roedd cyflwyno 'swigod' yn golygu nad oedd modd trefnu lleoliadau gwaith.

3.14 Dywedodd yr asesiadau, oherwydd diffyg cyfleoedd hyfforddi yn ystod y pandemig, yn enwedig y gostyngiad yn nifer y cyrsiau DPP a gynigiwyd, fod gan lawer o ymarferwyr anghenion hyfforddi neu eu bod eisiau uwchsgilio. Roedd yr anghenion hyfforddi a grybwyllwyd amlaf yn cynnwys hyfforddiant yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd i Gymru ac ADY (a drafodir yn fanylach yn Adran 5 yr adroddiad hwn).

3.15 Nododd Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant rhai awdurdodau lleol fod mwy o ddiddordeb gan ymarferwyr sy'n ddarparwyr gofal plant i weithio tuag at gymhwyster gwaith chwarae. Nodwyd mai'r rheswm am hyn oedd y newid i'r Safonau Gofynnol

Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed. Y newid oedd, erbyn 30 Medi 2022, y dylai lleoliadau sy'n cynnig darpariaeth y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau sicrhau bod cyfran briodol o staff yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae addas[15]

[15] Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir | LLYW.CYMRU. Manylion yn Dyddiad cau cymwysterau gwaith chwarae | LLYW.CYMRU

## 4. Rhwystrau i fynediad at ofal plant

4.1 Mae’r canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi’r gofynion yr oedd yn rhaid iddynt eu bodloni i asesu a oedd digon o ofal plant yn eu hardaloedd i ddiwallu anghenion gwahanol rieni/gofalwyr, ac yn benodol ar ddarparu “gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy’n ymateb i anghenion rhieni/gofalwyr".[16] Roedd rhai enghreifftiau o sut i asesu hyn yn cynnwys fforddiadwyedd gofal plant, anghenion rhieni/gofalwyr sy’n gweithio – gan gynnwys y rhai sy’n gweithio oriau annodweddiadol, argaeledd cynlluniau gofal plant, darpariaeth gofal plant sy’n defnyddio’r Gymraeg, a darpariaeth ar gyfer plant ag ADY.

4.2 Wrth asesu'r ddarpariaeth hon, nodwyd nifer o rwystrau cyffredin ar draws Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol ac mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r themâu cyffredin hyn a nodwyd mewn perthynas â rhwystrau i fynediad at ofal plant.

4.3 Cyn mynd i fanylder ar y prif rwystrau a nodwyd, mae'n ddefnyddiol rhoi trosolwg o'r sylwadau yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ynghylch argaeledd gofal plant ar yr adeg y cawsant eu hysgrifennu (2022). Yn gyffredinol, roedd y cyflenwad a’r galw am ofal plant, ac felly argaeledd gofal plant, yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. O blith yr asesiadau hynny (tua'u hanner) a ddaeth i gasgliadau cyffredinol am ddigonolrwydd gofal plant yn eu hardal, adroddodd y rhan fwyaf ei bod yn ymddangos, ar raddfa eang, bod digon o ofal plant ar draws yr awdurdod lleol, a dim ond nifer bach a ddywedodd bod cyflenwad annigonol o ofal plant ar gael yn gyffredinol. Fodd bynnag, nododd pob Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant anghenion heb eu diwallu a rhwystrau a wynebir gan rieni/gofalwyr o ran cael mynediad at y ddarpariaeth sydd ar gael, sy’n golygu bod hyd yn oed y rhai a ddaeth i’r casgliad bod digon o ofal plant ar gael yn eu hardal wedi nodi annigonolrwydd mewn ardaloedd penodol – er enghraifft gan wahanol fathau o ddarpariaeth ac ardaloedd daearyddol. Yn yr asesiadau a nododd nad oedd digon o ofal plant ar gael ar draws eu hardal, roedd rhai yn cysylltu hyn â busnesau’n cau yn ystod neu ar ôl y pandemig a / neu ostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig.[17]

---

[16] Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)

[17] Nododd ymchwil i gyflwr y sector gwarchod plant yng Nghymru ganfyddiadau tebyg hefyd: Adolygiad annibynnol o warchod plant | LLYW.CYMRU

4.4 Deilliodd gwybodaeth yn ymwneud â rhwystrau i fynediad at ofal plant yn yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant o ddata a gasglwyd drwy'r arolwg o rieni/gofalwyr, Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, arolygon o ddarparwyr a gwybodaeth a gasglwyd gan swyddogion awdurdodau lleol yn ystod ymweliadau â lleoliadau (e.e., Swyddog Gwella Ansawdd, Swyddog Digonolrwydd Chwarae, Cydlynydd Dechrau'n Deg).

**Fforddiadwyedd**

4.5 Thema gyffredin ar draws yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant oedd fforddiadwyedd yn rhwystr i lawer o deuluoedd gael mynediad at ofal plant. Cyfeiriodd yr asesiadau at ymatebion fel rhan o'r arolwg o rieni/gofalwyr, gyda llawer yn awgrymu mai cost oedd y prif rwystr a oedd yn eu hatal rhag cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant ffurfiol gan ei bod yn rhy ddrud. Nododd yr asesiadau fod llawer o rieni/gofalwyr a oedd wedi dweud eu bod yn anfodlon ar eu gofal plant wedi awgrymu y byddai ei wneud yn fwy fforddiadwy yn gwella eu profiad. Mynegwyd y pryder hwn gan randdeiliaid, cyflogwyr ac ysgolion hefyd. Mynegodd rhai awdurdodau lleol bryderon y byddai'r argyfwng costau byw yn gwaethygu hyn.

4.6 Roedd rhai sylwadau enghreifftiol o'r arolygon rhieni/gofalwyr yn cynnwys:

> "Hoffwn i fy merch fynd i ofal plant pellach ond dw i ddim yn gallu ei fforddio." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

> "Ro'n i'n talu ychydig o dan £2000 y mis am ofal plant gan fod gen i efeilliaid a chefais i ddim cymorth gyda chostau gofal plant, dim ceiniog. Pe bai fy ngŵr neu fi'n rhoi'r gorau i weithio i ofalu amdanynt, mi fydden ni'n edrych am swyddi pan fyddan nhw'n dechrau yn yr ysgol a fydden ni ddim yn gallu cael y swyddi oedd gennym yn ôl. Fe wnaethon ni straffaglu drwyddi ac roedd y blynyddoedd pwysicaf o fondio gyda'n babanod yn llawn pryder ynglŷn â sut roedden ni'n mynd i fforddio talu'r biliau, gweithio a thalu am ofal plant." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

> "Rwy'n gwybod y gallaf gael arian ar gyfer gofal plant drwy'r Credyd Cynhwysol, ond dwi dal ddim yn credu fy mod i'n gallu ei fforddio. Fydd y ffaith bod gen i swydd ddim yn gwneud ein bywyd yn well." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

4.7 Nododd sawl Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant sut y gall fforddiadwyedd fod yn ffactor fwy arwyddocaol byth i rai mathau o deuluoedd. Nodwyd y gallai cost gofal plant fod yn rhwystr i gyflogaeth neu hyfforddiant i rai rhieni/gofalwyr, gan gynnwys rhieni/gofalwyr yn gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau eu horiau gan na allent fforddio gofal plant. Nododd rhai fod costau yn arbennig o uchel ar gyfer plant dan dair oed a bod teuluoedd yn dod yn ddibynnol ar ffrindiau a theulu oherwydd hyn. Nododd un asesiad nad oedd y rhai ar isafswm cyflog yn elwa digon ar gymorth ariannol a'u bod yn cael trafferth fforddio gofal plant. Nodwyd nad oedd rhai rhieni sengl/gofalwyr yn gallu fforddio ffioedd gofal plant ar ben costau byw hyd yn oed ar ôl derbyn cymorth drwy'r Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, ers i'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant gael eu hysgrifennu, fod mwy o gefnogaeth wedi bod i elfen cymorth gofal plant y Credyd Cynhwysol.[18]

4.8 Nodwyd bod fforddiadwyedd hefyd yn broblem i deuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a theuluoedd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, roedd trafodaethau ynghylch materion sy'n ymwneud ag anghenion y grwpiau hyn yn aml yn fwy cyfyngedig o fewn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a'r Cynlluniau Gweithredu, ac efallai y bydd angen rhagor o ymgysylltu yn y dyfodol.

4.9 Nodwyd hefyd bod bwlch yn y cyllid ar gyfer plant iau 0-2 oed nad oeddent eto'n gymwys ar gyfer y cynllun Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant.

4.10 Fe wnaeth awdurdodau lleol a oedd wedi nodi bod fforddiadwyedd yn rhwystr awgrymiadau ar sut y gallai gofal plant fod yn fwy fforddiadwy i deuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys yr awdurdodau lleol yn cefnogi darparwyr i allu cynnig pob math o gynlluniau cymorth ariannol gofal plant, fel yr amlinellir yn Adran 2. Er enghraifft, cael mwy o ddarparwyr i gynnig Dechrau'n Deg (fel gwarchodwyr plant). Roedd y safbwyntiau a nodwyd mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn cynnwys barn rhieni/gofalwyr a oedd hefyd yn teimlo y dylid cynnig mwy o gymorth i gymell rhieni/gofalwyr i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cael babi. Fel y crybwyllir yn Adran 2, roedd sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael gwybodaeth am y cynlluniau gofal plant a ariennir sydd ar gael yn rhan o'r cynlluniau gweithredu. Amlygwyd hefyd y dylai awdurdodau lleol barhau i weithio mewn partneriaeth â rhaglenni cyflogadwyedd lleol a gweithwyr proffesiynol er mwyn cynghori ar hyrwyddo mentrau gofal plant a

[18] Cyllid gofal plant credyd cynhwysol i godi 47% o fis Mehefin – Newyddion y BBC

ariennir a rhaglenni megis Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth. Roedd yr awgrymiadau hyn i'w gweld mewn llawer o gynlluniau gweithredu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant.

**Hyblygrwydd**

4.11 Amlygodd pob Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hyblygrwydd fel mater allweddol o ran galluogi rhieni/gofalwyr i gael mynediad at ofal plant. Adroddwyd yn aml o'r arolygon rhieni/gofalwyr ac mewn adborth gan leoliadau fod angen mwy o hyblygrwydd ar gyfer gofal plant ar rieni/gofalwyr.

4.12 Tynnodd llawer o'r asesiadau sylw at y ffaith bod rhieni/gofalwyr sy'n gweithio, yn enwedig y rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal plant y tu allan i oriau gwaith safonol. Nodwyd nad oedd llawer o ddarparwyr yn gallu cynnig darpariaeth gofal plant ar ôl 6pm yn ystod yr wythnos, ar benwythnosau na chynnig gofal dros nos. Cafwyd galwad gan lawer o rieni/gofalwyr i ymestyn oriau agor lleoliadau. Roedd rhieni/gofalwyr a oedd yn gweithio shifftiau gwahanol bob wythnos hefyd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant ble nad oedd yn ofynnol i'r plentyn fynychu'r lleoliad ar yr un diwrnodau bob wythnos ac yn teimlo bod angen mwy o hyblygrwydd i addasu i waith shifft. Codwyd materion hefyd gan rieni/gofalwyr a oedd yn cael trafferth cael mynediad at ofal amser llawn. Ar y llaw arall, roedd pryderon hefyd o ran y rhai a oedd yn dymuno cael mynediad at ofal rhan-amser ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny e.e., os mai dim ond gofal yn y prynhawn neu'r bore yr oedd ei angen ar rieni/gofalwyr, efallai y byddent wedi gorfod talu am ddiwrnod llawn.

> "[Yn fy mhrofiad i] ychydig iawn o leoliadau gofal plant hyblyg sydd ar gael. Fel rhywun sy'n gweithio shifftiau, mae fy rota yn newid yn rheolaidd." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

> "Cefais anhawster i ddod o hyd i ofal plant sy'n dechrau'n ddigon cynnar yn y boreau ac sydd ar agor yn ddigon hwyr gyda'r nos. Dyna pam dw i wedi gorfod dibynnu ar deulu a ffrindiau." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

> "Mae wedi bod yn anodd dod o hyd i ofal plant ar yr amseroedd a'r dyddiau sydd eu hangen arnon ni. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant yn gofyn i chi

gadw at yr un diwrnodau bob wythnos, ond os nad ydych chi'n gweithio'r un diwrnodau bob wythnos mae'n anodd … does dim hyblygrwydd i'r rhai sy'n gweithio shifftiau." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

4.13 Dywedodd sawl Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant fod rhai cynlluniau ar waith gan leoliadau i gynyddu eu horiau agor (gan gynnwys mewn ymateb i alw cynyddol o ganlyniad i raglenni a ariennir fel y crybwyllwyd yn Adran 2), ond nid oedd gan lawer o ddarparwyr gynlluniau ar waith neu nid oeddent yn gallu darparu ar gyfer yr angen hwn. Yn nodweddiadol, roedd gwarchodwyr plant yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd a gofal plant y tu allan i oriau na rhai lleoliadau eraill, fodd bynnag oherwydd y lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig, amlygodd llawer o asesiadau hyn hefyd fel pryder wrth fynd i'r afael â'r angen hwn. Awgrymodd rhai asesiadau fod mynd i'r afael â'r lleihad yn niferoedd y gwarchodwyr plant a chadw a recriwtio gwarchodwyr plant yn bwysig er mwyn helpu i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion rhieni/gofalwyr. Awgrymwyd hefyd y dylai lleoliadau weithio gyda rhieni/gofalwyr i ddiwallu eu hanghenion, yn ogystal â rhoi gwybod i rieni/gofalwyr pa ofal plant sydd ar gael yn eu hardaloedd y tu allan i oriau gwaith arferol.

"Dywedodd rhai rhieni yn yr Arolwg Rhieni nad oedden nhw'n gallu dod o hyd i ofal plant sy'n cyd-fynd â'u patrymau gweithio hyblyg felly mae angen cefnogaeth barhaus i annog darparwyr i gael sgyrsiau agored a gonest gyda theuluoedd i ganfod eu hanghenion gan y gallent o bosibl esblygu dros amser i sicrhau bod gwasanaethau hyblyg yn cael eu darparu lle bo modd." Sylwadau mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

**Prinder gofal ar ôl ysgol a darpariaeth dros y gwyliau**

4.14 Nododd llawer o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant alw mawr am ofal ar ôl ysgol a darpariaeth dros y gwyliau i blant o oedran ysgol. Dywedwyd nad oedd modd diwallu'r galw am ddarpariaeth ar ôl ysgol mewn llawer o ardaloedd gyda rhieni/gofalwyr yn dweud eu bod yn cael trafferth cael mynediad at y gofal ar ôl ysgol hwn a mynegwyd awydd i fwy o ofal plant fod ar gael yn ystod yr amseroedd hyn. Nododd rhai asesiadau mai hwn oedd un o'r prif bryderon a wynebir gan rieni/gofalwyr a'i fod yn broblem i rieni/gofalwyr sy'n gweithio.

> “Oes, mae yna brinder mawr o ofal plant yn fy ardal leol. Pan fydd fy mab yn dechrau yn yr ysgol gynradd y flwyddyn nesaf, dw i ddim yn gallu dod o hyd i unrhyw un (gwarchodwr plant neu feithrinfa ddydd breifat) a fydd yn gallu darparu gofal plant [addas]. Rwy'n teimlo dan straen mawr oherwydd hynny oherwydd efallai y bydd yn rhaid i mi leihau fy oriau gwaith eto neu roi'r gorau i'm swydd. Rwy'n weithiwr proffesiynol ôl-raddedig cymwysedig felly dw i ddim am roi'r gorau i fy ngyrfa na gorfod lleihau fy oriau gwaith eto. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar gontract 0.75 oherwydd problemau gydag argaeledd gofal plant.” Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

> “Mae ein hysgol wedi rhoi’r gorau i gynnal ei chlwb brecwast ers y pandemig a does dim clwb ar ôl ysgol. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd gweithio’r oriau sydd eu hangen ar fy nghyflogwr.” Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

4.15 Cyfeiriodd sawl Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol at ansefydlogrwydd y sector y tu allan i oriau ysgol a bod rhai clybiau wedi dadgofrestru (rhai oherwydd y pandemig). Nododd rhai nad oedd penaethiaid yn gallu cyfiawnhau dechrau clybiau cyn/ar ôl ysgol am nad oedd digon o alw, ond roedd y galw hwn yn dibynnu ar gost y clwb (gyda llai o alw'n debygol am glybiau drutach).

**Diffyg mathau eraill o ddarpariaeth**

4.16 Dywedodd y rhan fwyaf o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant fod rhieni/gofalwyr yn cael trafferth gyda’r lleoliadau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn eu hardal. Mynegodd cyfran sylweddol o rieni/gofalwyr awydd i anfon eu plant i leoliadau cyfrwng Cymraeg, ond nid oedd lleoedd ar gael yn eu hardal. Mae hwn yn rhwystr sy’n cael ei drafod yn fanylach yn Adran 6.

4.17 Nododd y rhan fwyaf o'r asesiadau fwlch yn y ddarpariaeth gofal plant i blant ag ADY. Nid oedd llawer o rieni/gofalwyr yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth addas yn eu hardal. Mae hwn yn rhwystr sy’n cael ei drafod yn fanylach yn Adran 5.

**Rhwystrau daearyddol**

4.18 Cynhyrchodd pob Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant wybodaeth am y cyflenwad a'r galw am ofal plant mewn gwahanol rannau o'u hardal. Er bod argaeledd gwahanol fathau o ddarpariaeth gofal plant yn benodol gysylltiedig ag ardal ddaearyddol pob awdurdod lleol, un thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg mewn rhai asesiadau oedd y rhwystr yr oedd rhai rhieni/gofalwyr mewn ardaloedd gwledig yn eu hwynebu. Gallai'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd hyn wynebu dewis cyfyngedig o ofal plant yn eu hardal. Amlygwyd hefyd y gallai rhieni/gofalwyr deithio ymhell i gael mynediad at ofal plant, yn enwedig mewn achosion lle nad oedd y lleoliad yn yr un ardal â'u gweithle. Gallai hyn hefyd olygu bod rhieni/gofalwyr yn defnyddio gofal plant mewn awdurdod lleol gwahanol i'r un y maent yn byw ynddo. Dywedodd un awdurdod lleol fod ei leoliad gwledig a'r ffaith nad oedd ganddo lawer o opsiynau o ran trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystr i fynediad at ofal plant.

4.19 Yn unol â'r canllawiau statudol, roedd Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn ymgorffori amcanestyniadau o'r boblogaeth ac yn darparu sylwadau a dadansoddiad o'r hyn y gallai ei olygu i ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. Ar y cyfan, mae'n ymddangos y bu gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a allai o bosibl arwain at lai o alw am ofal plant.

## 5. Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r themâu cyffredin a nodwyd ar draws Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol mewn perthynas ag ADY. Mae'n werth nodi bod y canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar gyflenwad, galw, a rhwystrau i ofal plant ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu anabledd ac ers hynny mae'r derminoleg hon wedi'i disodli gan blant ag ADY. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r dirwedd gofal plant i'r rhai ag ADY yng Nghymru wedi newid yn sgil pasio Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn 2017 a'r rhaglen trawsnewid ADY a'r Cod ADY cysylltiedig.[19] Er i'r canllawiau statudol gael eu cyhoeddi cyn y newidiadau hyn yn 2016, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, fel rhan o'r broses o gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, adrodd ar y cyflenwad a'r galw am ofal plant i blant ag ADY yn ogystal â nodi'r rhwystrau i ofal plant ar gyfer y teuluoedd hyn. [20]

5.2 Casglwyd gwybodaeth am ADY yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant gan ddarparwyr gofal plant, rhieni/gofalwyr, a rhanddeiliaid, sef partneriaid CWLWM. Er bod nifer y rhieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd fod ganddynt blentyn/plant ag ADY/anabledd yn fach, roedd yr adborth a ddarparwyd ganddynt yn werthfawr er mwyn deall eu hanghenion a'r bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant.

5.3 Thema allweddol a nodwyd o ymatebion arolwg rhieni/gofalwyr ar draws yr asesiadau oedd anhawster dod o hyd i ddarpariaeth addas ar gyfer plant ag ADY i fodloni eu hanghenion penodol. Roedd rhai sylwadau yn cynnwys mynediad i ofal plant addas ar gyfer plant ag ADY yn fwy o her fyth i deuluoedd yn ystod cyfnodau gwyliau ac i blant oedran ysgol uwchradd. Roedd diffyg gofal plant addas wedi arwain at deuluoedd yn methu â defnyddio gofal plant ffurfiol ac yn dibynnu ar rwydweithiau cymorth neu'n rhoi'r gorau i'w swyddi. Mae enghreifftiau o ymatebion i'r arolwg rhieni/gofalwyr wedi'u cynnwys isod.

[19] Yn ôl Llywodraeth Cymru "Y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yw'r system newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0 i 25 oed yng Nghymru ag ADY. Mae'r system ADY yn disodli'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r system ar gyfer cefnogi pobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau (AAD)." Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin [HTML] | LLYW.CYMRU

[20] Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)

“Dydych chi ddim yn cynnig oriau digon hir na lleoedd cywir ar gyfer gofal plant. Mae plant anabl fel fy mhlentyn i angen gofal plant a chlybiau gwyliau gydol y flwyddyn a dim ond drwy feithrinfeydd preifat y gellir cael hynny felly ystyriwch roi cynnig gofal plant amser llawn i feithrinfeydd preifat…” Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

“Mae fy merch yn 'anabl' a does unman sy'n bodloni ei gofynion. Dydi hi ddim yn gallu cael ei gadael ar ei phen ei hun felly rwyf wedi gorfod rhoi’r gorau i weithio er mwyn bod yno iddi.” Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

“Mae gen i blentyn hŷn ag awtistiaeth ac anawsterau dysgu. [Yn fy mhrofiad i] ychydig iawn o ofal plant sydd ar gael sy'n darparu ar gyfer plant fel fy merch. Mae dirfawr angen gofal cofleidiol i blant mewn ysgolion arbennig. Dylai fod modd i rieni plant anabl gael mynediad i waith fel unrhyw un arall.” Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

5.4 Awgrymodd rhanddeiliaid mewn rhai Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant y gellid defnyddio nanis i ddarparu cymorth ADY i deuluoedd sy’n gweithio, gan y byddai hyn yn caniatáu i deuluoedd gael mynediad at ofal plant yn eu cartref eu hunain a pharhau i elwa ar Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth neu dalebau gofal plant cyflogwyr.

5.5 Thema gyffredin a ddaeth i’r amlwg yn yr asesiadau oedd cyllid annigonol ar gyfer darpariaeth ADY. Pwysleisiodd partneriaid CWLWM yr angen am gyllid digonol i ddarparwyr gofal plant barhau i gynnig darpariaeth gynaliadwy i blant ag ADY. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod darpariaeth un-i-un ar gael i blant sydd angen y lefel hon o gefnogaeth gan y nodwyd bod hyn yn ddiffygiol. Teimlwyd bod anawsterau o ran recriwtio staff i ddarparu cymorth un-i-un a nodwyd diffyg cymorth un-i-un hefyd gan rieni/gofalwyr.

5.6 Amlinellodd rhai asesiadau gynlluniau presennol a oedd wedi'u cynllunio i gefnogi plant ag ADY megis rhaglen atgyfeirio mewn un awdurdod yng ngorllewin Cymru, ond pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybod am eu hopsiynau gofal plant ac unrhyw gymorth ariannol sydd ar gael. Dylai darparwyr gofal plant hefyd gael arweiniad ar gymorth ariannol a grantiau a bod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael. Er bod gan rai awdurdodau lleol gynlluniau a chymorth ariannol ar waith, ystyriwyd bod cost gofal plant hefyd yn rhwystr i

deuluoedd plant ag ADY, yn enwedig teuluoedd difreintiedig a gallai arwain at lai yn mynychu darpariaeth gofal plant.

> "Mae dod o hyd i ofal ar gyfer plentyn anabl bron yn amhosibl, neu mae'r gofal sydd ar gael [yn fy mhrofiad i] yn ddrutach. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddibynnu ar hyblygrwydd cyflogwyr a chymorth gan aelodau'r teulu er mwyn ein galluogi ni'n dau i weithio. Gall fod yn straen mawr…" Barn rhieni/gofalwyr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

5.7 Roedd yr angen am hyfforddiant pellach i staff a sut y mae diffyg hyfforddiant digonol yn rhwystr i gynnig cymorth i blant ag ADY yn thema a gododd dro ar ôl tro ar draws yr asesiadau. Codwyd yr angen am hyfforddiant ADY pellach i staff gofal plant hefyd yn yr arolwg rhieni/gofalwyr.

> "Nid yw llawer o bobl wedi cael eu hyfforddi i ofalu am blant ag anghenion ychwanegol, yn enwedig lle mae ymddygiad treisgar yn gyffredin." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Codwyd rhai heriau'n gysylltiedig â chyflwyno'r cod ADY newydd yng Nghymru. Dywedodd PACEY Cymru fod lefelau gwahanol o ddisgwyliadau a gofynion hyfforddi yn ymwneud â'r cod ADY newydd. Mae cyflwyno'r cod ADY newydd yng Nghymru yn golygu bod angen hyfforddiant pellach ar staff gofal plant mewn perthynas â'r cod newydd. Canfu'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a rannodd ganlyniadau arolygon gyda darparwyr gofal plant fod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn teimlo bod eu lleoliad wedi gwneud cynnydd gyda'r rhaglen trawsnewid ADY, er nad oedd rhai ymatebwyr yn gwybod beth oedd y rhaglen trawsnewid ADY. Nododd PACEY Cymru fod ychydig dros hanner y gwarchodwyr plant yng Nghymru yn ymwybodol o'r cod ADY newydd a'u bod yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am sut yr oedd awdurdodau lleol yn paratoi ac yn cefnogi gwarchodwyr plant i bontio i'r cod newydd.

5.8 Nodwyd yr angen am well mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant ag ADY gan rai awdurdodau lleol a amlinellodd y camau a oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn gan gynnwys datblygu hyfforddiant, hysbysebu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a buddsoddi i sicrhau bod gofal plant dwyieithog ar gael i deuluoedd. Nododd sawl un o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant adborth gan randdeiliaid, a'r Mudiad Meithrin yn arbennig, a bwysleisiodd pa mor bwysig yw

hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant ag ADY ac y dylai'r ddarpariaeth fod o fewn cyrraedd i gartref y teulu er mwyn rhoi gwell dewis i deuluoedd.

5.9 Effeithiodd y pandemig COVID-19 ar y cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth gofal plant yn gyffredinol a chrëwyd heriau i rieni/gofalwyr ag unrhyw blentyn/plant ag ADY yn sgil cau lleoliadau gofal plant. Disgrifiodd rhai rhanddeiliaid a darparwyr gofal plant sut y bu i'r pandemig effeithio ar ddatblygiad plant, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, a nodwyd enghreifftiau'n ymwneud â datblygiad lleferydd ac iaith a gorbryder. Mewn rhai asesiadau, disgrifiodd rhanddeiliaid a darparwyr gofal plant sut y bu i'r pandemig gynyddu nifer y plant ag ADY gan fod canlyniadau'r cyfnod clo a diffyg mynediad at wasanaethau cymorth wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad llawer o blant yn y blynyddoedd cynnar. Nododd un rhanddeiliad mewn un Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant fod plant ag ADY "ymhellach ar ei hôl hi" oherwydd y pandemig.

## 6. Darpariaeth Gymraeg

6.1 Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r themâu cyffredin a nodwyd ar draws Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg. Noda Deddf 2006 a chanllawiau statudol bod yn rhaid i awdurdodau lleol, wrth benderfynu ar ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant, ystyried "y ddarpariaeth gofal plant sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg."[21] Noda'r canllawiau statudol y dylid ystyried yr heriau a brofir gan leoliadau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag ystyried y galw am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a'r tebygolrwydd o gynnydd yn y galw yn y dyfodol. At hynny, mae canllawiau ategol diweddar, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol:

> "Sicrhau yr ymgysylltir ag arweinwyr CSCA awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol ar adeg gyfleus yn y cylch cynllunio, gan gynnwys amcanion yn eu Hasesiad 2022 sy'n gysylltiedig â chynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer twf a pharhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r targed 10 mlynedd mewn perthynas â phlant Blwyddyn 1." [22]

6.2 Roedd y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol i gael gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a amlinellwyd mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn cynnwys y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, CSCA awdurdodau lleol, data'r Cyfrifiad, arolwg blynyddol o'r boblogaeth, canlyniadau o arolwg rhieni/gofalwyr a data perthnasol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.[23]

6.3 Yn eu hasesiadau, amlinellodd awdurdodau lleol eu hymrwymiad i gefnogi'r strategaeth Cymraeg 2050 – strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050 – drwy ganolbwyntio ar asesu digonolrwydd darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Amlinellodd awdurdodau lleol hefyd sut y mae eu dull o sicrhau gofal plant cyfrwng Cymraeg digonol yn cefnogi ac yn cyd-fynd â'u CSCA.

---

[21] Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)
[22] Asesiad o ddigonolrwydd gofal plant 2022: canllawiau ategol i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU
[23] Mae dogfen ganllaw atodol 2022 yn nodi: "I gefnogi'r broses gynllunio, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r data perthnasol i awdurdodau lleol, gan gynnwys niferoedd Cylchoedd Meithrin yn ardal yr awdurdod lleol a nifer a chanran y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg."

6.4 Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osod targed deng mlynedd i gynyddu nifer y plant ym Mlwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg.[24] Yn eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, mae rhai awdurdodau lleol yn gosod nodau i gefnogi eu canran darged o blant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y camau gweithredu'n cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu, cynyddu a hyrwyddo'r cyflenwad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cyfleoedd trochi ieithyddol, er mwyn helpu i sicrhau llwybr di-dor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. Er mwyn gwneud hynny, nododd awdurdodau lleol bwysigrwydd annog mwy o unigolion Cymraeg eu hiaith i ymuno â'r proffesiwn gofal plant, yn enwedig gwarchodwyr plant, sydd, fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adran hon, yn brin. Roedd enghreifftiau o ddulliau arfaethedig awdurdodau lleol o wneud hyn yn cynnwys ymgyrchoedd marchnata a chydweithio â cholegau addysg bellach i hyrwyddo manteision Cymraeg yn y gweithle.

6.5 Roedd nodau awdurdodau lleol i gefnogi eu canran darged o blant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi hyrwyddo buddion/manteision dwyieithrwydd. Dywedodd llawer o awdurdodau lleol y byddent yn gweithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i wneud hyn. Nododd awdurdodau lleol hefyd ymrwymiad i gefnogi lleoliadau i weithio tuag at gyflawni Cynnig Rhagweithiol AGC mewn perthynas â'r Gymraeg.[25]

6.6 Wrth asesu digonolrwydd gofal plant cyfrwng Cymraeg, thema allweddol a nodwyd ar draws yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant oedd yr heriau a wynebir gan rieni/gofalwyr o ran cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y mater a grybwyllwyd amlaf mewn perthynas â mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg i rieni/gofalwyr oedd argaeledd y ddarpariaeth hon. Dywedodd mwy o rieni/gofalwyr fod argaeledd yn fwy o broblem na phellter, ansawdd gofal, gallu ieithyddol staff, cost, ac oriau annigonol o ofal.

---

[24] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 (legislation.gov.uk)

[25] Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn elfen allweddol o 'Mwy na geiriau' – fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd yn 2016. Y Cynnig Rhagweithiol yw pan fydd "gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg heb fod angen i rywun ofyn am hynny. Mae'n golygu bod darparwyr yn rhagweld anghenion siaradwyr Cymraeg yn naturiol. Nid ydynt yn aros i rywun ofyn am wasanaeth yn Gymraeg ond yn hytrach maent yn ymgorffori ac yn hyrwyddo'r gred bod yn rhaid ystyried y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, os ydych yn siaradwr Cymraeg, fel elfen greiddiol o'ch gofal ac nid fel opsiwn ychwanegol. Mwy na geiriau | Arolygiaeth Gofal Cymru

“Does dim llawer o ddarparwyr Cymraeg. Doedd dim llawer o opsiynau yn fy ardal i.” Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

“…Byddai mwy o feithrinfeydd dydd dwyieithog neu Gymraeg yn ddefnyddiol, neu fwy o gymorth ariannol i'r Cylch agor am fwy o oriau yn ystod gwyliau’r ysgol.” Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

6.7 Er ei bod yn ymddangos bod diffyg darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn broblem gyffredinol ar draws y rhan fwyaf o fathau o ddarparwyr gofal plant, roedd hyn yn ymddangos yn arbennig o nodedig mewn perthynas â gwarchodwyr plant. Mae dyfyniadau gan rieni/gofalwyr mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn dangos hynny drwy sylwadau fel “Dw i ddim wedi gallu dod o hyd i warchodwr plant sy’n siarad Cymraeg”. Codwyd y mater hwn hefyd gan Mudiad Meithrin a ddywedodd, “Mae angen mwy o warchodwyr plant hyderus sy’n gallu siarad Cymraeg yn y sir.”

6.8 Roedd mater arall yn ymwneud â chael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg yn cynnwys oriau annigonol o ofal. Mae’r gyfran fwyaf o ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg yn tueddu i gynnig gofal sesiynol – fel arfer Cylch Meithrin. Mae’n bosibl na fydd yr oriau a gynigir gan y darparwyr hyn yn cyd-fynd â'r oriau sy’n ofynnol gan rieni/gofalwyr, ac amlinellodd rhai awdurdodau lleol yn eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant fod rhieni/gofalwyr wedi nodi bod oriau annigonol o ofal yn rhwystr i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

“Roedd fy merch yn mynd i'r Cylch Meithrin…ond roedd yn rhaid i ni newid lleoliad gan nad oeddwn i'n gallu cyrraedd y gwaith mewn pryd oherwydd yr oriau agor. Felly roedd yn rhaid i mi newid i leoliad Saesneg gan mai dyma'r unig gylch chwarae oedd ar gael a oedd yn agor yn ddigon cynnar. Wedi dweud hynny mae’r gofal a’r amrywiaeth o brofiadau heb eu hail.” Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

6.9 Fel y trafodwyd yn Adran 5, nododd rhai awdurdodau lleol hefyd yr angen am well mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant ag ADY.

6.10 Nodwyd sgiliau iaith staff mewn rhai Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant fel rhwystr i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â'r cyflenwad o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Roedd sylwadau gan rieni/gofalwyr, darparwyr a

rhanddeiliaid a gyflwynwyd mewn asesiadau yn rhoi syniad o'r problemau gyda recriwtio staff cymwys sy'n siarad Cymraeg:

> "Fe wnes i ddewis ein meithrinfa bresennol gan ei bod yn feithrinfa fach sy'n teimlo'n glyd ac mae naws deuluol yno. Mae'n drueni nad oes llawer o staff yn siarad Cymraeg yno." Barn rhiant/gofalwr a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

> "Mae angen sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn ystyried gweithio yn y maes Gofal Plant fel bod digon o staff ar gael i weithio yn y maes hwn. Sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol e.e. therapyddion iaith yn gallu siarad Cymraeg gyda theuluoedd Cymraeg eu hiaith." Barn rhanddeiliad a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

> "Mae yna anawsterau ar hyn o bryd gyda phenodi staff, yn enwedig staff cymwysedig sy'n medru'r Gymraeg." Barn rhanddeiliad a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

6.11 Mae'r dyfyniadau uchod yn dangos sut y mae lleoliadau gofal plant yn wynebu problemau o ran recriwtio staff cymwys sy'n medru'r Gymraeg. Roedd Adran 3 yn trafod ymhellach faterion recriwtio a nodwyd mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant.

6.12 Oherwydd materion a nodwyd yn ymwneud â chapasiti iaith Gymraeg, nododd awdurdodau lleol yn eu hasesiadau yr angen i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal plant, gan ganolbwyntio ar annog mwy o unigolion Cymraeg eu hiaith i ymuno â'r proffesiwn. Amlygodd rhai Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant hefyd yr angen i gefnogi'r sector gyda hyfforddiant iaith Gymraeg. Enghraifft o ddulliau a amlinellwyd gan awdurdodau lleol oedd hyrwyddo cyrsiau blasu Cymraeg wedi'u hariannu, wedi'u dylunio ar gyfer y gweithlu gofal plant a blynyddoedd cynnar.

## 7. Dyfodol gofal plant

7.1 Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r themâu cyffredin a nodwyd ar draws Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol mewn perthynas â chynaliadwyedd a dyfodol darpariaeth gofal plant yng Nghymru. Yn ôl Deddf 2006, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod grantiau cynaliadwyedd a grantiau dechrau busnes ar gael yn ogystal â rhoi rhaglen ar waith i gefnogi lleoedd gofal plant newydd. Yn y canllawiau statudol, nodwyd bod yn rhaid ystyried cynaliadwyedd y farchnad gofal plant a pha ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr gofal plant.[26] Roedd y canllawiau hefyd yn tynnu sylw at ffactorau y gallai awdurdodau lleol eu hystyried yn ystod y broses o gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, a oedd yn cynnwys:

> "…grantiau uniongyrchol/cyllid ar gyfer darparwyr gofal plant, arian wedi'i sianelu i rieni, fel defnyddwyr gofal plant (credyd treth gwaith, credyd cynhwysol, gofal plant cymorth cyflogwr, gofal plant sy'n rhydd o dreth) a datgofrestriadau AGGCC."[27]

**Cynaliadwyedd busnesau**

7.2 Yn eu Hasesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, cyflwynodd awdurdodau lleol nifer y cofrestriadau newydd a datgofrestriadau ar draws y gwahanol fathau o ddarparwyr gofal plant. Yn nodedig, nodwyd lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant mewn sawl Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, gyda nifer uwch o ddatgofrestriadau na chofrestriadau gan rai.[28] Codwyd hyn hefyd fel pryder ledled Cymru gan PACEY Cymru.

> "Mae PACEY Cymru yn bryderus i nodi gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant ledled Cymru…O fis Ebrill 2021, mae PACEY Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa ac opsiwn gofal plant i deuluoedd er mwyn cefnogi cynaliadwyedd, niferoedd y gwarchodwyr plant a dewis gofal plant i rieni." Barn rhanddeiliad a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

[26] Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)
[27] Adeg cyhoeddi canllawiau 2016, y rheoleiddiwr gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru oedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), ac mae hyn bellach wedi newid i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
[28] Nododd ymchwil i gyflwr y sector gwarchod plant yng Nghymru ganfyddiadau tebyg hefyd: Adolygiad annibynnol o warchod plant | LLYW.CYMRU

7.3 Un bygythiad allweddol i gynaliadwyedd a nodwyd i ddarparwyr gofal plant oedd yr anhawster a oedd yn gysylltiedig â recriwtio a chadw staff.

> "Mae'n anodd iawn recriwtio staff profiadol a chymwys. Mae prinder mawr o staff yn y maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar. Oherwydd prinder staff, mae pwysau ychwanegol ar staff i weithio oriau/diwrnodau ychwanegol sy'n creu straen ychwanegol ar unigolion. Nid yw ychwaith yn bosibl i staff fynychu hyfforddiant fel rhan o'u datblygiad proffesiynol gan nad oes unrhyw staff i gymryd eu lle a chadw at gymarebau staffio AGC." Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Roedd rhai awdurdodau lleol yn ystyried hyrwyddo'r sector gofal plant fel gyrfa ddeniadol er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â recriwtio a chadw staff. Dywedodd un awdurdod lleol fod "Parhau i hyrwyddo ymdeimlad o 'werth' mewn perthynas â rôl gweithwyr gofal plant proffesiynol a'r proffesiwn gwarchod plant" yn ymateb allweddol gan ddarparwyr gofal plant pan ofynnwyd iddynt pa gymorth neu gyngor yr hoffent ei gael gan yr awdurdod lleol.

7.4 Roedd Adran 4 yr adroddiad hwn yn manylu ar y rhwystrau a wynebir gan deuluoedd o ran cael mynediad at ofal plant addas ac roedd y rhain yn cynnwys hyblygrwydd y ddarpariaeth, yn enwedig diffyg gofal ar ôl ysgol a darpariaeth dros y gwyliau. Fel rhan o broses ymgynghori'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, awgrymodd Clybiau Plant Cymru Kids Club fod "angen gwneud mwy i annog mwy o hyblygrwydd mewn gwasanaethau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol". Ar y llaw arall, fe wnaeth dau awdurdod lleol gynnwys pryderon ynghylch y ffaith, er bod galw am ddarpariaeth hyblyg, nad yw hynny'n gynaliadwy i ddarparwyr gofal plant.

> "Er bod galw am ofal plant mwy hyblyg gall hyn fod yn anghynaliadwy i ddarparwyr. Gall yr angen i gynllunio ac ariannu staff ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu fod yn ddrud os na chaiff y lleoedd hyn eu llenwi ar y funud olaf." Sylwadau mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

> "Mae'r cysyniad o fforddiadwyedd yn aml yn oddrychol sy'n ei gwneud hi'n anodd bodloni'r galw am ofal plant fforddiadwy. Mae angen ystyried cynaliadwyedd busnesau gofal plant wrth ystyried fforddiadwyedd, oherwydd y mwyaf "fforddiadwy" fydd gofal plant, y mwyaf o bwysau ariannol y byddwch yn ei roi ar iechyd ariannol busnes. Gall rhoi pwysau ar gynaliadwyedd y

farchnad gofal plant arwain at fusnesau'n methu, mwy o ymyrraeth ariannol gan yr awdurdod lleol a/neu bartneriaid yn y 3ydd sector a fydd yn anochel yn arwain at golli lleoedd gofal plant." Sylwadau mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

7.5 Roedd effaith y pandemig COVID-19 mewn perthynas â chynaliadwyedd yn thema allweddol a drafodwyd mewn sawl Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Dangosodd yr asesiadau yr effeithiau tymor byr a hirdymor amrywiol a amlygwyd gan awdurdodau lleol a oedd yn cynnwys yr effaith ariannol o golli refeniw yn sgil cau lleoliadau gofal plant, llai o alw gan fod mwy o rieni/gofalwyr yn gweithio gartref neu ar ffyrlo a phryderon ynghylch recriwtio a chadw staff. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) yn gyffredinol fod y pandemig a'r "mesurau amddiffynnol a gymerwyd gan feithrinfeydd wedi arwain at ddiffyg incwm sylweddol i lawer o feithrinfeydd ac wedi creu ansicrwydd ynghylch y dyfodol."

"Roedd yn anodd iawn, y peth anoddaf oedd gorfod cau fel busnes. Roedd yn anodd rhoi staff ar ffyrlo, ac mae bellach yn anodd dod o hyd i staff cymwysedig newydd." Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

7.6 Rhannodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol fanylion y grantiau niferus a oedd ar gael yn ymwneud â chynaliadwyedd a chymorth ariannol a gynigir i ddarparwyr gofal plant. Roedd enghreifftiau'n cynnwys Grant Cymorth Ychwanegol, Grant Darpariaeth Newydd/Grant Dechrau Busnes, a Grant Adnoddau. Argymhellwyd yn aml y dylai darparwyr gofal plant gael eu hatgoffa'n rheolaidd neu gael gwybodaeth reolaidd am y grantiau sydd ar gael iddynt.

"Roedd yn hawdd iawn cael gafael ar y grantiau, mae'r arian wedi bod o gymorth mawr i'm lleoliad, yn enwedig i brynu teganau newydd yn lle'r rhai sydd wedi torri neu sy'n hen." Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

7.7 Roedd nifer o grantiau wedi'u hanelu at gefnogi darparwyr i ymdopi ag effeithiau'r pandemig COVID-19, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi yn ystod y Coronafeirws a Grantiau Cyfalaf Bach yn ystod Covid y Cynnig Gofal Plant.

"Roedd yn broses syml, a chawsom lawer o adnoddau newydd i'n helpu drwy COVID-19 a rhoddodd y grant hwb mawr ei angen i ni gan dalu am gost gwaith yr

oedd ei angen yn ddybryd ac nad oeddem mewn sefyllfa i'w ariannu. Bu o gymorth mawr i leddfu'r pwysau ariannol." Barn Darparwr Gofal Plant a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

7.8 Mewn rhai awdurdodau lleol, gwahoddwyd darparwyr gofal plant i amlinellu pa gymorth y byddent yn ei groesawu yn y dyfodol. Roedd enghreifftiau allweddol yn cynnwys sicrhau bod darparwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am grantiau, cymorth gyda recriwtio a chadw staff, hyfforddi staff, cymorth ar gyfer cofrestriadau ac arolygiadau a chymorth ynghylch cyflwyno darpariaeth Gymraeg ac ADY.

"Cynnig cyfraddau cyflog uwch a cheisio recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg." Barn rhanddeiliad a fynegwyd mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

**Dyfodol gofal plant**

7.9 Mae'n werth nodi bod yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a drafodir yn yr adroddiad hwn yn yn cwmpasu'r cyfnod pum mlynedd o 2022-2027 ond gan ddilyn canllawiau statudol 2016 a bu sawl datblygiad yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru ers hynny. [29]

7.10 Fel rhan o'r broses o gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant ddatgan eu prif bryderon am ddyfodol eu lleoliad. Ymhlith y materion allweddol roedd sefydlogrwydd a heriau ariannol, ymateb i nifer y plant a allai fynychu'r lleoliad, a chadw staff.

7.11 Roedd Adran 2 yr adroddiad hwn yn manylu ar ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant ledled Cymru. Er y bydd hwn yn gam cadarnhaol tuag at wella hygyrchedd gofal plant ac yn cael ei groesawu gan deuluoedd, mynegwyd pryderon gan awdurdodau lleol ynghylch cynnydd yn y galw am ofal plant a bwlch posibl i rai yn y cyflenwad yn sgil heriau recriwtio a chadw staff. At hynny, disgrifiodd un awdurdod lleol bryderon yn y CSCA ynghylch nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg lleol ar gyfer teuluoedd a'r teithio a fyddai'n ofynnol er mwyn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

[29] Gofal plant: canllawiau statudol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)

7.12 Dywedodd NDNA fod effaith COVID-19 a’r mesurau amddiffynnol cysylltiedig yr oedd eu hangen yn effeithio’n sylweddol ar refeniw ar gyfer meithrinfeydd ac o ganlyniad yn creu ansicrwydd ynghylch eu dyfodol ac argaeledd lleoedd gofal plant. Fodd bynnag, nododd un awdurdod lleol yn ei Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant fod nifer y sesiynau Dechrau’n Deg a fynychwyd wedi cynyddu o 2019/20 a 2020/21 yn sgil y cynnydd yn hyder ac awydd teuluoedd i blant ddychwelyd i ofal plant. Mae'n bosibl bod hyn yn gyffredin ar draws awdurdodau lleol eraill.

7.13 Fel y crybwyllwyd yn Adran 4, mae rhagfynegiadau poblogaeth yn amrywio fesul awdurdod lleol. Er bod rhai awdurdodau lleol yn rhagweld cynnydd yn eu poblogaeth 0-17 oed, dywedodd y mwyafrif ei bod yn ymddangos y bu gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a disgwylir i’r duedd hon barhau dros y blynyddoedd nesaf sy'n golygu y bydd gostyngiad yn y boblogaeth 0-17 oed yn debygol ac o bosibl gostyngiad yn y galw am ofal plant. Fodd bynnag, nododd llawer o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant y dylid gwrthbwyso hyn gyda chynnydd yn y galw am ofal plant oherwydd bod cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer gofal plant fel Dechrau’n Deg a’r Cynnig Gofal Plant wedi cael eu hehangu. Mae yna hefyd ffactorau eraill a allai effeithio ar ragolygon poblogaeth megis datblygiadau tai newydd a mudo i'r ardal. Felly mae'n anodd rhagweld gydag unrhyw sicrwydd yr effaith y bydd newidiadau yn y boblogaeth yn ei chael ar y galw am ofal plant ledled Cymru.

7.14 Fel y trafodwyd ym mharagraff 7.5, mae'r pandemig COVID-19 wedi arwain at sawl effaith tymor byr a hirdymor ar ddarpariaeth gofal plant. Tynnodd NDNA sylw at y materion yn ymwneud â recriwtio staff cymwysedig ac roedd cynaliadwyedd busnesau, sef heriau ariannol, wedi arwain at ansicrwydd ynghylch dyfodol darparwyr gofal plant. Pwysleisiodd PACEY Cymru ymhellach yr angen i gymorth ariannol fod ar gael i warchodwyr plant wrth iddynt adfer o effeithiau'r pandemig. Ar gyfer un awdurdod lleol, cododd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant y pryder bod COVID-19 wedi effeithio’n sylweddol ar y cynnydd o ran mynd i’r afael â bylchau a nodwyd yn ystod y broses asesu. Nododd tua hanner yr awdurdodau lleol newidiadau yn y galw oherwydd y pandemig gan gynnwys mwy o rieni/gofalwyr yn cael mynediad at ofal plant ffurfiol yn lle dibynnu ar deulu/ffrindiau oherwydd bod cyfyngiadau ar waith a llai o alw am ofal plant ar ôl ysgol gyda rhieni/gofalwyr yn gweithio gartref ac mewn sefyllfa i gasglu eu plentyn o'r ysgol. Er nad oedd

cyfyngiadau ar waith mwyach pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, mae'n bosibl bod rhieni/gofalwyr yn gweithio gartref yn amlach nag yr oeddent cyn y pandemig, felly gallai'r galw am ddarpariaeth gofal plant ar ôl ysgol gael ei effeithio o hyd.

## 8. Crynodeb a synthesis

8.1 Mae’r bennod olaf hon yn crynhoi’r themâu allweddol sydd wedi dod i’r amlwg o’r dadansoddiad o’r 22 Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

*Cymorth ariannol ar gyfer gofal plant*

8.2 Adroddodd yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ar gynlluniau cymorth ariannol ar gyfer gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys y cyflenwad a’r nifer sy’n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, Dechrau’n Deg, a thalebau gofal plant CThEM a rhaglenni gofal plant sy'n rhydd o dreth. Dywedodd llawer o'r asesiadau fod ehangu’r Cynnig Gofal Plant wedi arwain at ymchwydd yn y galw gan rieni, gan roi pwysau ar gapasiti darparwyr gofal plant o bryd i’w gilydd.

8.3 Un thema a gododd dro ar ôl tro ar draws yr asesiadau oedd y straen ariannol a roddwyd ar ddarparwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant. Er gwaethaf cynnydd yn y gyfradd fesul awr ers ei sefydlu yn 2017, roedd pryderon yn parhau ymhlith darparwyr ynghylch a oedd y cyllid hwn yn ddigonol i dalu’r costau sy’n gysylltiedig â darparu gofal plant o ansawdd uchel. At hynny, roedd cyflwyno’r Cynnig Gofal Plant wedi ysgogi rhai cyfleusterau gofal plant i ymestyn eu horiau gweithredu i gyd-fynd ag anghenion teuluoedd sy’n ceisio manteisio i’r eithaf ar eu hawl. O ran Dechrau’n Deg, roedd sylwadau cadarnhaol yn ogystal â beirniadaeth i'w gweld yn yr asesiadau. Er bod llawer yn cydnabod effaith gadarnhaol y rhaglen, adroddwyd mewn rhai asesiadau bod rhai awdurdodau lleol a rhieni wedi codi pryderon ynghylch ei hygyrchedd, gan ei alw’n “loteri cod post" weithiau. Fodd bynnag, nododd llawer o asesiadau y gallai ehangu Dechrau’n Deg fynd i’r afael â’r gwahaniaethau hyn, gan gyrraedd mwy o blant a chynyddu’r pwysau ar ddarparwyr gofal plant.

8.4 Nododd llawer o'r asesiadau fod angen lledaenu gwybodaeth yn fwy effeithiol i rieni am y cynlluniau cymorth sydd ar gael. Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynghylch cynaliadwyedd y cynlluniau hyn ar gyfer darparwyr gofal plant yn y dyfodol a'u potensial i effeithio ar ddarpariaethau gofal plant eraill.

*Datblygu'r gweithlu*

8.5 Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg ar draws pob un o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant oedd yr her sylweddol yr oedd y sector gofal plant yn ei hwynebu wrth recriwtio a chadw staff. Gwaethygodd COVID-19 y materion hyn, gan ei gwneud hyd yn oed yn anoddach fyth diwallu'r galw cynyddol am ofal plant, yn enwedig wrth i raglenni fel Dechrau'n Deg ehangu. Ymhlith y ffactorau yr adroddwyd eu bod wedi cyfrannu at heriau staffio roedd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio cyrsiau gofal plant, a leihaodd y gronfa o ymgeiswyr cymwys, a saib dros dro mewn gweithgareddau hyrwyddo oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud â COVID-19.

8.6 Mae problemau o ran cadw staff hefyd yn parhau yn ôl yr asesiadau, gyda chyflogau isel a phwysau gwaith uchel yn cael eu nodi fel rhesymau pam mae staff yn gadael lleoliadau gofal plant. Roedd y staff a oedd yn gadael yn aml yn symud i sectorau y tu allan i ofal plant, megis addysg, gofal iechyd, manwerthu a lletygarwch.

8.7 Roedd darparu hyfforddiant yn chwarae yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o ddatblygu'r gweithlu, ond tarfwyd ar ddulliau hyfforddi traddodiadol gan effaith COVID-19 yn ôl yr asesiadau. Bu'n rhaid i lawer o awdurdodau lleol addasu drwy newid i ddarparu rhai cyrsiau ar-lein, a hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig a gafodd ei effeithio fwyaf oherwydd ei natur ymarferol. Fodd bynnag, bu i fynediad cyfyngedig i TG, staff cyflenwi, a chau lleoliadau yn ystod y pandemig rwystro ymarferwyr rhag gallu manteisio ar hyfforddiant. Er gwaethaf yr heriau hyn, bu galw cynyddol am hyfforddiant pellach a mwy yn ymwneud â'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan amlygu ymrwymiad y sector i wella ei ansawdd a'i safonau.

*Rhwystrau i fynediad at ofal plant*

8.8 Roedd fforddiadwyedd yn bryder mawr ar draws yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, gyda chost wedi'i nodi fel rhwystr sylweddol a oedd yn atal llawer o deuluoedd rhag cael mynediad at ofal plant ffurfiol. Mynegodd rhieni/gofalwyr fod costau gofal plant uchel yn eu llesteirio rhag cael mynediad at ofal ffurfiol, ac adleisiodd rhanddeiliaid, cyflogwyr ac ysgolion y pryder hwn. Roedd fforddiadwyedd yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau, gan gynnwys y rhai ar isafswm cyflog,

rhieni sengl, teuluoedd â phlant 0-2 oed nad ydynt eto’n gymwys ar gyfer rhaglenni penodol, a theuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

8.9 Roedd hyblygrwydd yn fater allweddol arall, gyda rhieni a oedd yn gweithio, yn enwedig y rhai sy’n gweithio oriau annodweddiadol, yn cael trafferth cael mynediad at ofal plant y tu allan i oriau gwaith arferol. Roedd gallu cyfyngedig darparwyr i gynnig gofal plant y tu hwnt i 6pm yn ystod yr wythnos neu ar benwythnosau, yn ogystal â'u hanallu i ddarparu ar gyfer gwaith shifft neu ddarparu gofal rhan-amser, yn gwaethygu'r her hon ymhellach. Er bod gan rai darparwyr gynlluniau i ymestyn eu horiau agor, fel yr adroddwyd yn yr asesiadau, roedd y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig a'r diffyg opsiynau hyblyg ar gyfer gweithwyr shifft yn parhau i fod yn bryder. Roedd diffyg gofal ar ôl ysgol a darpariaeth dros y gwyliau yn rhwystr nodedig arall, gyda galw uchel a dim digon o ddarpariaeth mewn llawer o ardaloedd. Roedd rhieni’n aml yn ei chael hi'n anodd sicrhau gofal addas ar gyfer plant oedran ysgol ar ôl ysgol neu dros y gwyliau, gan greu straen ac amharu ar eu gwaith o bosibl. Yn ogystal â hynny, ychwanegodd ansefydlogrwydd y sector y tu allan i oriau ysgol a rhai clybiau'n datgofrestru at y broblem hon.

8.10 Amlygwyd rhwystrau daearyddol hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle y gall yr opsiynau gofal plant fod yn gyfyngedig. Mae rhai rhieni'n gorfod teithio ymhell i gael mynediad at ofal plant, a allai olygu croesi ffiniau awdurdodau lleol. Roedd amcanestyniadau poblogaeth yn dangos gostyngiad posibl yn y galw am ofal plant oherwydd gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y rhwystrau hyn yn tanlinellu'r angen am fesurau rhagweithiol i sicrhau gofal plant hygyrch a fforddiadwy i bob teulu.

*Anghenion Dysgu Ychwanegol*

8.11 Thema amlwg a nodwyd yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant oedd yr anhawster y mae rhieni/gofalwyr yn ei wynebu wrth ddod o hyd i ofal plant addas ar gyfer plant ag ADY, a oedd yn waeth yn ystod y gwyliau ac ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd. Roedd diffyg mynediad at ofal plant priodol wedi arwain at rai teuluoedd yn gorfod dibynnu ar rwydweithiau cymorth neu hyd yn oed roi'r gorau i'w swyddi yn ôl ffynonellau a ddyfynnwyd yn yr asesiadau. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer mynd i’r afael â’r mater hwn yn cynnwys defnyddio nanis ar gyfer darpariaeth

ADY a sicrhau cyllid digonol ar gyfer darparwyr gofal plant, yn enwedig ar gyfer cymorth un-i-un.

8.12 Daeth hyfforddiant ar gyfer staff sy'n delio â phlant ADY i'r amlwg fel pryder sylweddol arall, gyda rhanddeiliaid a ddyfynnwyd mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn pwysleisio'r angen am well cyfleoedd hyfforddi. Nodwyd hefyd heriau'n ymwneud â'r cod ADY newydd yng Nghymru. At hynny, cafodd y pandemig effaith sylweddol yn ôl llawer o'r asesiadau, gan arwain at fwy o alw a phryderon am blant ag ADY yn syrthio ar ei hôl hi o ran eu datblygiad oherwydd y cyfnodau clo a mynediad cyfyngedig at wasanaethau cymorth.

*Gofal plant cyfrwng Cymraeg*

8.13 Defnyddiodd awdurdodau lleol ffynonellau amrywiol, gan gynnwys arolygon a data'r cyfrifiad, i gasglu gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mynegwyd ymrwymiad ganddynt i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyflawni hyn, gosododd awdurdodau lleol dargedau ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 1 ac amlinellu cynlluniau i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.

8.14 Un thema amlwg yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant oedd yr anhawster y mae rhieni/gofalwyr yn ei wynebu o ran cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg oherwydd argaeledd cyfyngedig, yn enwedig o ran gwarchodwyr plant. Her arall yw'r oriau cyfyngedig o ofal a ddarperir gan leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg, sy'n aml yn anghydnaws ag oriau gwaith rhieni. Daeth sgiliau iaith y staff i'r amlwg hefyd fel rhwystr i recriwtio gweithwyr gofal plant cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg.

8.15 Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, nod awdurdodau lleol oedd hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal plant, annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn, a darparu hyfforddiant i wella sgiliau iaith staff. Amlygodd yr asesiadau bwysigrwydd gwneud gofal plant cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch a diwallu anghenion teuluoedd sydd eisiau darpariaeth Gymraeg.

*Dyfodol gofal plant*

8.16 Roedd y bennod olaf yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd a rhagolygon y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn y dyfodol, yn ôl yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant.

8.17 Daeth recriwtio a chadw staff i'r amlwg fel heriau hollbwysig i ddarparwyr gofal plant. Datgelodd yr asesiadau ostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant yn arbennig, pryder a fynegwyd gan PACEY Cymru. Ceisiodd awdurdodau lleol hyrwyddo'r sector gofal plant fel opsiwn gyrfa deniadol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

8.18 Roedd hyblygrwydd mewn gwasanaethau gofal plant yn bwnc arall a drafodwyd mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, gyda Chlybiau Plant Cymru Kids Club yn awgrymu bod angen mwy o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai awdurdodau lleol y gallai gormod o hyblygrwydd fod yn anghynaliadwy i ddarparwyr gofal plant.

8.19 Roedd effaith y pandemig COVID-19 ar gynaliadwyedd yn thema a gododd dro ar ôl tro, gan amlygu colledion ariannol, llai o alw oherwydd bod pobl yn gweithio o bell, ac anawsterau recriwtio. Trafodwyd y grantiau amrywiol a oedd wedi'u hanelu at gynnal darparwyr gofal plant drwy'r pandemig.

8.20 Gan edrych i'r dyfodol, yn sgil ehangu Dechrau'n Deg, roedd disgwyl i hygyrchedd gofal plant wella. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y bwlch posibl rhwng y galw a'r cyflenwad, a waethygwyd gan heriau recriwtio a chadw. Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, felly nid oes darlun cyffredinol clir o sut y bydd newidiadau yn effeithio ar y galw am ofal plant. Cafodd effeithiau hirdymor posibl y pandemig COVID-19 ar y galw a’r cynnydd o ran mynd i’r afael â bylchau mewn gofal plant hefyd eu hystyried yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant.

8.21 At ei gilydd, pwysleisiodd yr asesiadau bwysigrwydd cefnogi darparwyr gofal plant, mynd i’r afael â heriau’n ymwneud â'r gweithlu, a sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn wyneb gofynion sy'n esblygu ac aflonyddwch nas rhagwelwyd, fel y pandemig.